COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Rhagfyr 11eg, 2019 am saith o'r gloch

PRESENNOL

O. Hefin Roberts (Cadeirydd); G. Ian Evans (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Dylan Llwyd

YMDDIHEURIADAU

Angharad Correia-Martins, Alun Jones (aros am lawdriniaeth), Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, William B. Williams, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

ABSENNOL

Erfyl W. Roberts

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Nid oedd gan neb fuddiant i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

   Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dachwedd 13eg, 2019 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

   Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

   Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

   C19/1062/39/LL — Safle glampio arfaethedig i gynnwys pedwar cwt bugail a gwaith cysylltiol – Fferm Pant yr Hwch, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd buasent i'w gweld o Lôn Garmon/ffordd Mynytho a Phen y Gaer (fel y pebyll saffari yn Nhy'n y Cae, Llangian) sy'n rhan o Lwybr yr Arfordir ac AHNE. Mynegwyd pryder: a) am y cynnydd mewn trafnidiaeth ar ffordd gul (cyffordd-T) sy'n arwain at lôn yr eiddo (a rennir gan eraill), gan mai fesul noson neu ddwy y gosodir cytiau bugail fel arfer; b) pe cyfyd yr angen, am fynediad i'r gwasanaethau brys o ystyried mai barbeciw a thannau coed agored a ddefnyddir; c) am y diffyg goruchwyliaeth a allai fod ar y safle, gan mai tŷ gosod (12+) yw Pant yr Hwch erbyn hyn, yn**

arbennig gan y bwriedir eu lleoli yn y cae pellaf oddi wrtho ac yng ngolwg tai eraill megis Caerffynnon.

C19/1105/39/DT Estyniadau ac addasiadau, gan gynnwys estyniad porth newydd ar y llawr gwaelod, estyniad newydd ar y llawr gwaelod yn cynnwys estyniad o'r ddormer a'r balconi presennol, estyniad lefel islawr newydd sy'n cynnwys balconi de newydd uwchben, estyniad ochr bae â balconi de ar y llawr uwchben ac ailfodelu cyffredinol o'r safle – Trigfa, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Cefnogir**

5. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Ymestyn Oriau Agor y Giatiau***
Nid oedd dim i'w adrodd.

ii) ***E-on – Gosod 'Smart Meter' yn y Toiledau***
Yn anffodus, rhaid aildrefnu dyddiad (Ionawr 10fed, 2020) i osod 'smart meter' oherwydd nid oedd 'goriad' y blwch meter ar y bachyn yn y storfa.

b) **Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Mickey's Boatyard, Marchros**
Deallwyd y gohiriwyd trafod y cais cynllunio ac y deil gwrthwynebiad Gwarchod y Cyhoedd iddo.

c) **Cyfoeth Naturiol Cymru – Cytundeb Torri'r Foel**

i) Prosesir ad-daliad y llynedd ac anfonwyd anfoneb eleni (gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

ii) Credir y byddai pori'r comin yn beth da ond, disgwylir ymateb i'r ymholiad a oes angen caniatâd Llywodraeth Cymru i'w ffensio. Gellid atodi'r pori at y cytundeb maes o law pe gweithredid yr ymholiad am ganiatâd ffensio rhan o'r Foel - ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach am hynny.

6. **MYNWENT**

a) **Prisiau Claddu Newydd**
Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod yr uchod.

b) **Yr Hen Fynwent**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Henaduriaeth i'r llythyr a anfonwyd parthed y maes parcio. Cysylltodd y Cadeirydd i ddweud y gallai'r swyddogion gyfarfod i drafod dyfodol y fynwent ddechrau'r flwyddyn – awgrymodd Ionawr 14eg.

c) **Adolygu Ffioedd ar gyfer Claddu neu Amlosgiadau Plant**
Holiadur byr am yr uchod – ni ellid ateb rhai o'r cwestiynau gan na fu achos o gladdu yma.

7. **CAEAU CHWARAE**

a) **Offer Newydd – Amcanbrisiau Goliau**
Archebwyd y peipiau i wneud y goliau newydd yng Nghae Chwarae Aber-soch ac fe'i rhoddwyd i'r contractwr eu gwneud. Mae angen trefnu ail-leoli goliau Cae Chwarae Mynytho.

b) **Paentio'r Offer a Lloches Bws Parciau, Mynytho**
Addawodd y paentiwr gwblhau'r uchod cyn gynted ag y gwellai'r tywydd.

c) **Mainc Solar**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Glerc Cyngor Cymuned Llanfair Talhaearn yn dilyn holi faint o ddefnydd ac ati a wneir o'r un yno.

ch) **Coeden ger Cae Chwarae Aber-soch**
Ni lwyddwyd ymchwilio i berchnogaeth y ffordd ar wefan Y Gofrestrfa Tir oherwydd trafferthion cyfrifiadurol y Clerc. Gofynnwyd i'r contractwr coed gael golwg ar y goeden *monterrey* – cysylltodd i ddweud ei bod yn iach ac na welai broblem â hi.

8. **CYFRIFON**

a) **Llif Arian, Asesiad Risg, Arbrawf Rheolaeth Ariannol Fewnol**
Cwblhawyd yr uchod yn dilyn mynd trwy'r llif arian ac arwyddwyd y ffurflenni gan y Cadeirydd a'r Clerc.

b) **Cyllideb 2020 – 2021**
Trafodwyd yr uchod, gan ddefnyddio'r llif arian, ynghyd â ffurflen incwm a gwariant y flwyddyn ariannol ddiwethaf a phenderfynwyd cadarnhau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn dilyn ystyried (gweler atodiadau):

Cyflogau	+£ 1000.00
Toiledau	+£20000.00
Biniau Baw Cŵn	+£1000.00
Gwefan	-£500.00
Golau Stryd	-£4000.00
Caeau Chwarae	-£18000.00

c) **Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2021**
Derbyniwyd gwybodaeth drafft mai targed y gymuned hon fydd £20,000 ond, mae hynny i'w gadarnhau pan gynhelir pwyllgor y gronfa leol yn y flwyddyn newydd. Trafodwyd y gellid cyfrannu ati dan A144 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac o'r praesept – £5000.00(?).

ch) **Aelodaeth Cymdeithas y Clercod (SLCC)**
Penderfynwyd parhau â'r aelodaeth – Adran 143 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod).

d) **Swm Priodol Adran 137(4)(a) Deddf Llywodraeth Leol 1972**
£8.32 yw'r swm ar gyfer 2020 – 2021 at ddibenion yr Adran uchod.

dd) **Praesept 2020 – 2021**
Derbyniwyd y ffurflen a'r wybodaeth briodol i'w cyflwyno cyn Ionawr 24ain, 2020. Ystyriwyd cynyddu'r praesept am y tro cyntaf ers rhai blynyddoedd – penderfynir yn y cyfarfod nesaf.

9. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**

Unwaith yn rhagor ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio.

b) **Cytiau Glan y Môr**
Yr un cofnod â'r uchod – ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Swyddogion Cynllunio nac Arweinydd y Cyngor fel yr addawodd ym mis Mehefin.

c) **Swyddog Gorfodaeth – Storio Carafanau yn Nhy'n-y-Mur, Lôn Garmon, Aber-soch**
Derbyniwyd gohebiaeth y cyfarfu'r swyddog â pherchennog yr uchod a'i chynghori i gyflwyno cais cynllunio i gadw'r defnydd di-ganiatâd o fewn 28 diwrnod.

10. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion yn y Gymuned – Llinellau Melyn ar Allt Marchros**
Deallwyd y paentiwyd y llinellau ar ddwy ochr y ffordd ond, ni dderbyniwyd ymateb i'r cais i'r Gwasanaeth Traffig.

b) **Gwrych Islwyn, Lôn Engan, Aber-soch**
Anfonwyd y llythyr at berchnogion yr uchod parthed torri'r gwrych.

c) **Twll ger Cyffordd Stad Maes Awel a Lôn Engan, Aber-soch**
Hysbyswyd Priffyrdd am yr uchod ac atebwyd nad yw'n ddiffyg Categori 1 a'i ychwanegu at restr y criw ymatebol pan fyddai yn yr ardal nesaf - fe'i caewyd erbyn hyn.

ch) **Cau Lôn Pentre Bach, Aber-soch**
Fe'i caeir am dridiau ar yr hwyaf yr wythnos hon.

11. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) **Torri'r Llwybrau**
Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod i drafod y llwybrau cyn i'r swyddog fynd am ei lawdriniaeth.

12. **TRAETHAU**

a) **Padlfyrddio ar Borth Fawr**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth yr ymgeisydd heddiw ond, ni ellir ei drafod gan na dderbyniwyd ymateb y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig iddo.

13. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C19/0743/39/LL	Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu un newydd ar yr un safle, ynghyd â datblygiadau cysylltiadau bach **–** Cartrefle Bach, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0963/39/LL	Diwygio Amod 2 ar Ganiatâd Cynllunio C18/0715/39/LL er cynnwys modurdy a phorth car tanddaearol **–** 68 Cae Du, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/0964/39/LL	Cwt glan y môr newydd **–** Cwt Glan y Môr 5, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C19/1001/39/LL	Newidiadau i flaen siop, gan gynnwys newid drws, gosod ffenestri newydd mewn agoriad a fu gynt mewn defnydd a newidiadau i

ffenestr bresennol – Cyn-fanc NatWest, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**

C19/1005/39/LL Dymchwel cwt glan y môr presennol a chodi un newydd, ynghyd â dec **–** Cwt Glan y Môr Traeth Marchros, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau**

14. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Bwletin mis Tachwedd***
Argraffwyd yr adroddiad ar weithdy a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Gaerfyrddin ar Reoli Tir Glas ar gyfer Bioamrywiaeth, Pobl a Chynaliadwyedd Ariannol a nodiadau NALC ar gofnodion cyfrinachol.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol***
Ymgynghoriad a ddaw i ben ar Ionawr 17eg, 2020.

ii) ***Cais am Wybodaeth am Randiroedd***
Arolwg am yr uchod ddaw i ben ar Ragfyr 13eg.

c) **Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd – Deud eich Deud am Blismona**
Arolwg ar-lein am yr uchod ddaw i ben ar Ionawr 17eg, 2020.

ch) **Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru – Cais i Bobl Siarad am Wasanaethau Fasgwlaidd**
Gwybodaeth am gyfarfodydd a drefnwyd ar gyfer yr uchod ar draws y Gogledd.

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Rhagfyr (Rh/S 002259) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Swyddfa Archwilio Cymru – £235.90 (Rh/S 002256 – Archwiliad Allanol 2018 – 2019)
b) Cymdeithas y Clercod (SLCC) – £140.00 (Rh/S 002257 – Tâl Aelodaeth 2020)
c) R.W. Griffith – £700.00 (Rh/S 002258 – Torri Gwellt ar Bont a Lôn Golff Aber-soch)
ch) Siôn Hughes – £4600.00 (Rh/S 002260 – Torri Gwellt y Foel a Llain y Pentref, Mynytho)
d) Canolfan Ffensio a Melin Goed Glasfryn – £487.44 (Rh/S 002261 – Coed Nadolig)
dd) Canolfan Gymdeithasol Llanengan – £135.00 (Rh/S 002262 – Llogi Ystafelloedd 2019)
e) Casglwr Trethi – £5.61 (Rh/S 002263 – Talu Wrth Ennill)
f) Dŵr Cymru – £182.13 (Rh/S 002264 – Cyflenwad Dŵr y Toiledau)

Derbyniadau

a) Toiledau – £11.10 (Tâl Mynediad – £6.90, £4.20)
b) Gwaith Coffaol Hefin – £340.00 (Cerrig Bedd Newydd)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ionawr 8fed, 2020 am saith o'r gloch